Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Polisi Gyrru yn y Gwaith - Fflyd y Cyngor



Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth
2024

DYSGU PERTHYN LLWYDDO BYW
LEARN BELONG SUCCEED LIVE

| | |
|---|---|
| Awdur: | Gwasanaethau Pobl a Threfniadaeth |
| Cymeradwyd gan y Cabinet: | 01/02/2022 |
| Dyddiad cyhoeddi: | |
| Diwygio: | |
| **Diwygio'r Polisi** | |
| Cymeradwyd gan y Cabinet: | |
| Dyddiad cyhoeddi: | |
| Diwygio: | |

## Cynnwys

1. Datganiad polisi ........ 4
2. Cwmpas ........ 4
3. Rolau a chyfrifoldebau ........ 5
4. Diwygio’r polisi ........ 10
5. Atodiadau ........ 10

## 1. Datganiad polisi

Mae’r polisi hwn, Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor, yn nodi’n glir y disgwyliadau o’r rhai sy’n meddu ar gyfrifoldeb dros reoli neu oruchwylio gyrwyr yn ogystal â gyrwyr unigol.  Mae’n bwysig bod pob rheolwr / goruchwylydd a gyrrwr yn cydymffurfio â’r polisi hwn a’r gweithdrefnau, sy’n mabwysiadu arweiniad rheoli risg gyrru diogel Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), sy’n cynnwys:

- **Gyrrwr diogel:** a yw staff yn ffit ac yn gymwys i yrru’n ddiogel?
- **Cerbyd diogel:** a yw cerbydau yn addas i’r diben ac mewn cyflwr diogel ar gyfer y ffordd fawr?
- **Taith ddiogel:** a yw teithiau yn angenrheidiol ac a ydynt yn cael eu cynllunio?

Pan fyddant yn y gwaith, mae’n ddyletswydd ar bawb:

- Cymryd gofal rhesymol o’u diogelwch eu hunain
- Cymryd gofal rhesymol o ddiogelwch eraill y gallent gael eu heffeithio gan yr hyn y byddwn yn ei wneud neu’n methu ei wneud
- Cydweithredu fel y gallwn a glynu wrth bolisïau'r Cyngor fel y gallwn i gyd gydymffurfio â'n dyletswyddau a'n rhwymedigaethau cyfreithiol

## 2. Cwmpas

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Cyngor Sir Ceredigion a staff asiantaeth sy’n gyrru Fflyd y Cyngor fel rhan o’u dyletswyddau.

Mae’r tabl isod yn disgrifio’r ddau brif gategori o ran gyrwyr yn y Cyngor:

| | |
|---|---|
| Gyrrwr fflyd y Cyngor | • Mae gofyn iddynt yrru cerbyd a gyflenwir gan y Cyngor ar gyfer rhywfaint neu'r cyfan o'u rôl.<br><br>**Mae’r polisi hwn yn berthnasol i yrrwr yn y categori hwn** |
| Gyrrwr fflyd llwyd | • Mae gofyn iddynt yrru am resymau gwaith a thelir milltiroedd teithio iddynt gan ddefnyddio cerbyd preifat neu ddefnyddio cerbyd llogi dydd a drefnir drwy Wasanaeth Caffael y Cyngor.<br><br>**Gweler *Polisi Gyrru yn y Gwaith – Defnyddio Cerbydau Preifat* am yrrwr yn y categori hwn** |

Nid yw’r polisi yn berthnasol i gymudo cyn i’r gyrrwr ddechrau gwaith, oni bai eu bod yn gyrru cerbyd a ddarparir gan yr Awdurdod.

## 3. Rolau a chyfrifoldebau

### 3.1 Aelodau Etholedig

- Yn cael eu cynghori ar y Polisi hwn gan Swyddog y Cyngor ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau digonol ar gael er mwyn galluogi gweithrediad y polisi hwn a'r holl fesurau angenrheidiol eraill er mwyn lliniaru risgiau rhagweladwy i'n cyflogeion a staff asiantaeth sy'n gyrru Fflyd y Cyngor fel rhan o'u dyletswyddau.
- Penodir aelod etholedig sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad digonol yn Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyngor a byddant yn goruchwylio datblygiad y polisi hwn ac yn gan ddwyn sylw aelodau Cabinet â'r portffolio cyfrifol, at faterion sy'n ymwneud â diogelwch cerbydau a gyrwyr.

### 3.2 Prif Weithredwr

Mae'r Prif Weithredwr yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff polisi Gyrru yn y Gwaith y Cyngor ei weithredu a'i gynnal. Bydd y Prif Weithredwr yn hwyluso darpariaeth systemau er mwyn cyflawni'r canlynol:

- Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles yr holl gyflogeion yn uniongyrchol, ynghyd ag unrhyw unigolion eraill y gallent gael eu heffeithio gan unrhyw yrru a gyflawnir ar ran yr Awdurdod fel rhan o'u dyletswyddau.
- Sicrhau cyfranogiad, ymrwymiad a chyfraniad ar bob lefel yn y Cyngor wrth wella diogelwch ein cyflogeion, llywodraethwyr, aelodau etholedig, gwirfoddolwyr a staff asiantaeth sy'n gyrru yn eu gwaith.
- Sicrhau bod systemau yn lle i gydymffurfio gyda pholisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor a'r trefniadau cysylltiedig.

### 3.3 Tîm Iechyd a Diogelwch

Bydd y Rheolwr a'r tîm Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am baratoi ac adolygu'r polisi hwn. Yn ogystal, byddant yn:

- Cynorthwyo gyda, monitro ac yn archwilio'r archwiliadau dirybudd a gyflawnir gan y Tîm Rheoli Fflyd ar gerbydau'r fflyd.
- Ar ôl i reolwr llinell / goruchwylydd gwblhau ymchwiliad rheoli digwyddiad, adolygu'r ymchwiliad ac os teimlir bod hynny'n briodol, cyflawni ymchwiliad pellach i ddigwyddiadau gyrru ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn y gwaith, ac/neu y gallent fod wedi bod yn beryglus.
- Cynorthwyo gydag asesiadau risg gweithgarwch gyrru cymhleth/peryglus iawn yn y gwaith.
- Cynorthwyo'r tîm dysgu a datblygu i ddatblygu rhaglen e-ddysgu gyrru mewn ffordd ddiogel yn y gwaith.

- Cydweithio gyda'r maes Gwasanaeth perthnasol ac AD os bydd digwyddiadau gyrru yn y gwaith lle y credir bod ymddygiad di-hid, cyffuriau neu alcohol yn ffactor cyfrannol.
- Adrodd digwyddiadau RIDDOR y mae gofyn adrodd amdanynt i HSE a chael cyswllt gyda HSE, yr Heddlu ac asiantaethau gorfodi allanol eraill yn ôl y gofyn.

### 3.4 Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Corfforaethol Arweiniol

Mae gan Gyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddogion Corfforaethol Arweiniol gyfrifoldeb cyffredinol dros gydymffurfio gydag iechyd a diogelwch yn eu meysydd gwasanaeth. Yn ogystal, ceir y disgwyliad, o bennaeth y Cyngor i lawr, y dylai unigolion arwain trwy esiampl bersonol a dilyn y canllawiau yn y polisi hwn, o ran y ffordd y maen nhw yn gyrru eu hunain ac wrth annog cydweithwyr a chyflogeion i yrru mewn ffordd ddiogel a cyfrifol.

Bydd Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cyflawni rôl Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch gan ddwyn sylw y Grŵp Arwain at faterion diogelwch sy'n ymwneud â gyrwyr, y Fflyd Llwyd a Fflyd y Cyngor.

### 3.5 Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau Llafur

Mae Cynrychiolwyr Diogelwch yn cyflawni rôl pwysig wrth sicrhau yr ymgynghorir yn llawn gyda chyflogeion ynghylch polisïau'r Cyngor am yrru'n ddiogel, diweddariadau ynghylch gyrru ac iechyd yn y gwaith ac annog cyfathrebu agored rhwng rheolwyr, undebau a chyflogeion, a'u bod yn ymgysylltu â'r rhain. Mae Cynrychiolwyr Diogelwch yn helpu trwy:

- Fynychu cyfarfodydd Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch a chyfleu gwybodaeth i'r gweithlu a chasglu adborth.
- Adrodd pryderon / problemau sy'n gysylltiedig â gyrru yn y gwaith sydd wedi nodi neu sydd wedi cael eu cyfeirio atynt i'w goruchwylydd / rheolwr llinell neu'r maes gwasanaeth perthnasol yn y lle cyntaf. Os na chaiff y rhain eu datrys wedi hynny, trwy eu cyfeirio at gyfarfod y Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch neu i'r tîm iechyd a diogelwch ac, os na chaiff ei ddatrys mewn modd amserol, i esgoli i'w Undeb i'w hystyried ymhellach.
- Arwain trwy esiampl bersonol.
- Amlygu pryderon gyrru yn y gwaith o lefel weithredol.
- Cynnig adborth a chyfrannu at yr adolygiad o'r polisi hwn.

### 3.6 Cyfrifoldebau Rheolwyr a Chyflogeion

| Gweithgarwch gyrru yn y gwaith | Rhaid i Oruchwylwyr / Rheolwyr: | Rhaid i gyflogeion: |
|---|---|---|
| **Fflyd y Cyngor a cherbydau personol** | • Sicrhau bod eu cyflogai wedi darllen a deall gofynion Protocol Gyrrwr Fflyd / Gweithredwr Peirianwaith ar eu penodiad<br>• Nodi manylion trwydded yrru y cyflogai ar system CERI.<br>• Sicrhau bod gan eu gyrwyr drwydded ddilys ar gyfer categori y cerbyd y maent yn ei yrru yn y gwaith.<br>• Cynnal asesiadau risg sy'n ymwneud â gweithgareddau gyrru a chyfleu'r rhain i'w timau.<br>• Sicrhau bod gyrwyr yn adrodd am ddigwyddiadau gyrru trwy broses Rheoli Digwyddiadau y Cyngor.<br>• Cynnal ymchwiliad trylwyr o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â gyrru yn y gwaith trwy broses Rheoli Digwyddiadau y Cyngor.<br>• Sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i yrru yn y gwaith, gan gynnwys y polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau, y polisi Absenoldeb Salwch, y polisi IaD, gofynion gweithio ar eich pen eich hun ac ati.<br>• Monitro iechyd ac ymddygiad eu gyrwyr, gan gynnwys nifer y digwyddiadau, adborth gan archwiliadau gât ac adroddiadau cwynion ac ati a chymryd camau addas yn ôl yr angen.<br>• Monitro iechyd a lles eu gyrwyr trwy oruchwylio, arfarniadau blynyddol a chymorth Iechyd Galwedigaethol yn ôl y gofyn<br>• Cynghori'r tîm Rheoli Fflyd ar unwaith os caiff trwydded | • Darllen, deall a chydymffurfio a'r ddogfen Protocol Gyrrwr / Gweithredwr Peirianwaith ar eu penodiad.<br>• Cydymffurfio a chydweithredu gyda'r rheolaethau a'r mesurau a roddwyd yn eu lle ynghylch gyrru mewn ffordd ddiogel yn y gwaith.<br>• Meddu ar drwydded yrru ddilys ar gyfer y categori o gerbyd y maent yn ei yrru yn y gwaith.<br>• Gyrru yn unol â chyfreithiau cyfredol y ffordd fawr a Rheolau'r Ffordd Fawr (e.e. arwyddion a signalau traffig, cyfyngiadau cyflymder, defnyddio gwregysau diogelwch, llywio lloeren, camau i'w cymryd yn dilyn digwyddiadau ar y ffordd, ac ati).<br>• Sicrhau bod unrhyw lwythi yn y cerbyd yn cael eu storio mewn ffordd ddiogel.<br>• Bod yn ffit i yrru. Os amharir ar addasrwydd i yrru (e.e. cyflwr meddygol, cymryd meddyginiaeth ac ati), rhaid iddynt hysbysu eu goruchwylydd / rheolwr llinell ar unwaith, gan hysbysu DVLA yn ôl y gofyn.<br>• Cydymffurfio ag unrhyw geisiadau am brofion cyffuriau ac alcohol fel yr amlinellir yn y ddogfen Protocol Gyrrwr / Gweithredwr Peirianwaith.<br>• Rhoi gwybod i'w goruchwyliwr ar unwaith os yw'n derbyn diagnosis, neu unrhyw newid mewn cyflwr meddygol a hysbyswyd yn flaenorol, a allai effeithio ar eu gallu i yrru.<br>• Sicrhau bod eu golwg yn bodloni'r gofynion gofynnol ar gyfer gyrru a'u bod yn gwisgo sbectolau presgripsiwn neu |

| | | |
|---|---|---|
| | gyrrwr ei hatal neu ei dirymu a gofyn am gyngor arbenigol gan eu Cynghorydd Adnoddau Dynol ar y mater.<br>• Gweithio law yn llaw gyda phroses recriwtio AD er mwyn sicrhau y bodlonir y disgrifiad swydd a'r manyleb person (e.e. archwilio trwyddedau gyrru cyn penodi).<br>• Cynghori'r tîm Rheoli Fflyd ar unwaith o unrhyw euogfarnau gyrru heb eu disbyddu / pwyntiau cosb neu unrhyw erlyniadau / cyhuddiadau sy'n gysylltiedig â gyrru sydd i ddod a cheisio cyngor arbenigol gan eu Ymgynghorydd AD ar y mater lle bo hynny'n briodol. | lensys cywirol bob amser pan yn gyrru os oes eu hangen.<br>• Peidio defnyddio unrhyw ddyfeisiau electronig gan gynnwys ffonau symudol pan yn gyrru neu pan fydd y cerbyd ymlaen.<br>• Adrodd am unrhyw ddigwyddiadau wrth yrru yn y gwaith i'w goruchwylydd / rheolwr llinell ar unwaith.<br>• Cydymffurfio â pholisi di-fwg y Cyngor<br>• Llenwi a chofnodi yr archwiliadau cerbyd dyddiol cyn eu defnyddio am y tro cyntaf bob dydd ac adrodd am unrhyw ddiffygion a nodwyd yn ystod yr archwiliad neu a fydd yn codi pan ddefnyddir y cerbyd pan fo hynny'n briodol.<br>• Hysbysu eu goruchwylydd / rheolwr llinell o unrhyw euogfarnau gyrru heb eu disbyddu / pwyntiau cosb neu unrhyw erlyniadau / cyhuddiadau am droseddau sy'n gysylltiedig â gyrru sydd i ddod. Cyflawni'r holl gamau y mae gofyn eu cyflawni er mwyn cynnal eu hawl i gael trwydded yrru gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i adnewyddu eu trwydded erbyn y dyddiad dod i ben a mynychu unrhyw brofion meddygol yn ôl y gofyn er mwyn adnewyddu'r drwydded.<br>• Cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'u trwydded.<br>• Hysbysu eu goruchwylydd /rheolwr llinell ar unwaith o unrhyw reswm a allai arwain at atal neu ddirymu eu trwydded yn llawn neu'n rhannol.<br>• Cynllunio eu teithiau gan ystyried y tywydd, amser y dydd a phan fo hynny'n berthnasol, cyfyngiadau amser e.e. amser cychwyn cyfarfod.<br>• Mynychu unrhyw hyfforddiant gofynnol er mwyn lleihau risg, |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnal cymhwysedd a gweithredu'r hyfforddiant hwn. |
| **Gyrru Fflyd y Cyngor** | • Sicrhau bod eu gyrwyr wedi mynychu'r holl hyfforddiant perthnasol e.e. diweddariadau CDAT a MiDAS, hyfforddiant sy'n cynnig diweddariad IaD, sesiynau ymgyfarwyddo gyda cherbyd ac anerchiadau blwch offer sy'n berthnasol i'w dyletswyddau.<br>• Sicrhau bod eu staff gyrru wedi mynychu hyfforddiant Fflyd a hyfforddiant swydd penodol cyn cychwyn ar eu dyletswyddau gyrru<br>• Sicrhau bod gyrwyr yn darparu manylion trwydded yrru a cherbyd CPC Gyrrwr (pan fo hynny'n briodol) bob 6 mis er mwyn galluogi gwiriadau i gadarnhau neu ailddatgan cymhwysedd i yrru.<br>• Sicrhau bod gyrwyr yn cwblhau eu harchwiliadau gyrrwr dyddiol cyn defnyddio'r cerbyd am y tro cyntaf; eu bod yn recordio'r rhain ac yn adrodd am unrhyw ddiffygion.<br>• Hysbysu'r Adran Yswiriant o unrhyw yrrwr sy'n eich hysbysu chi eu bod wedi cael euogfarn / ardystiad gyrru er mwyn sicrhau parhad y sicrwydd. | • Llenwi a chofnodi'r llyfr diffygion cerbyd dyddiol ac adrodd am unrhyw ddiffygion i'w goruchwylydd / rheolwr llinell ar unwaith.<br>• Mynychu unrhyw hyfforddiant ychwanegol gofynnol (MiDAS, CDAT, ac ati) am y math o fflyd y maent yn eu gyrru yn y gwaith a sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru. Yn ôl y gofyn, cyflawni'r 37 awr o hyfforddiant CPC gyrrwr dros gyfnod o 5 mlynedd yn unol â rhaglen CPC Gyrrwr y Cyngor. Yn ôl y gofyn, cario eu cerdyn CPC Gyrrwr gyda nhw bob amser pan fyddant yn gyrru Fflyd y Cyngor.<br>• Cymryd seibiant o yrru fel sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth gyfredol. |

### 3.7 Rheoli'r Fflyd

Mae Gwasanaeth Rheoli Fflyd y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r fflyd y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei logi. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a deddfwriaeth sy'n ymwneud gyda'r Fflyd / gyrru.
- Cydymffurfio â'i rwymedigaethau fel deiliad Trwydded Gweithredwr,
- Datblygu ac adolygu ei Asesiadau Risg a'i Systemau Gwaith Diogel trwy gael cyswllt gyda'r Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol,
- Cynnal archwiliadau cydymffurfiaeth gyda gofynion gyrru a rheoli sy'n gysylltiedig â'r Fflyd,

- Darparu neu drefnu darpariaeth hyfforddiant i yrwyr Fflyd e.e. hyfforddiant CPC, MIDAS, CDAT a Thor Rheolau Gyrrwr,
- Rheoli a goruchwylio contractwyr sy'n gysylltiedig â Rheoli'r Fflyd ar y safle,
- Rheoli stociau tanwydd,
- Gweithredu Unedau Cynnal a Chadw Trafnidiaeth (TMUs) y Cyngor, a leolir yn Nepo Glanyrafon ger Aberystwyth a Depo Penrhos ger Llandysul, y mae eu gwaith yn cynnwys:
    - Cynllunio a chynnal archwiliadau wedi'u trefnu, cynnal a chadw a pharatoi ar gyfer profion Blynyddol / MOT,
    - Rhoi diagnosis ar gyfer namau a nodi diffygion; cynnal neu drefnu gwaith trwsio yn ôl yr angen
    - Ymateb i / adfer fflyd sydd wedi bod mewn damwain neu y maent wedi torri i lawr (gan gynnwys bod ar alwad y tu allan i oriau swyddfa)
    - Cyflawni archwiliadau MOT Dosbarth 4 a 7,
    - Rheoli darnau a defnyddiau traul,
    - Gweithredu gweithgareddau yn unol â Systemau Gwaith Diogel ac Asesiadau Risg.

## 4. Diwygio'r polisi

Bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi hwn yn ôl y gofyn er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, prosesau, argymhellion yn dilyn digwyddiad a chyfraith achosion.

**Sut y mesurir llwyddiant y polisi**

Mesurir llwyddiant y polisi hwn yn ôl y cynnydd neu'r gostyngiad mewn:

- Nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gyrru a adroddir.
- Nifer y digwyddiadau adroddadwy sy'n gysylltiedig â gyrrwr y bernir y byddai wedi bod modd eu hosgoi.
- Nifer yr achosion tor rheolau traffig a geir.
- Nifer yr hysbysiadau erlyniadau gyrwyr bwriadedig a geir mewn perthynas â cherbydau Fflyd y Cyngor.
- Costau trwsio a chynnal a chadw y Fflyd.
- Costau ariannol eraill sy'n gysylltiedig gyda defnyddio cerbydau.
- Cost gyfartalog hawliadau iawndal cyflogeion sy'n gysylltiedig gyda cherbyd.

## 5. Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cytundeb Gyrrwr/Gweithredwr Peirianwaith |
| Atodiad 2 | Digwyddiad Gyrru – Siart Llif Adrodd |

# Atodiad 1

## Cyngor Sir Ceredigion

### Protocol Gyrrwr Fflyd /Gweithredwr Peirianwaith

Mae'r protocol hwn yn nodi'r disgwyliadau, y gofynion a'r amodau ar gyfer yr holl gyflogeion y mae gofyn iddynt yrru neu ddefnyddio eitem yn y Fflyd wrth gyflawni eu dyletswyddau.

***Diffiniadau***

| | |
|---|---|
| *Fflyd y Cyngor* | *Pob cerbyd, peirianwaith a threlar y mae Cyngor Sir Ceredigion yn berchen arnynt, yn eu prydlesu neu'n eu llogi* |
| *Gyrwyr* | *Yr holl gyflogeion y mae gofyn iddynt yrru a/neu ddefnyddio eitem o Fflyd y Cyngor wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau* |
| *Cyflogeion* | *Unrhyw staff parhaol, dros dro, ysbeidiol, wrth gefn neu asiantaeth a gyflogir gan neu sy'n gweithio ar ran Cyngor Sir Ceredigion* |

**Rhaid i'r holl gyflogeion gytuno a chydymffurfio'n llawn â'r amodau canlynol, a gallai methu cydymffurfio arwain at ddirymu'r hawl i yrru/defnyddio cerbyd Cyngor Ceredigion a chamau disgyblu.**

**Cyfrifoldebau personol cyflogeion:**

- Rhaid i gyflogeion hysbysu eu goruchwylydd /rheolwr llinell os bydd ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd isorweddol newydd neu sy'n bodoli eisoes neu unrhyw namau corfforol neu synhwyraidd y gallent effeithio ar eu gallu i yrru / defnyddio eu cerbyd / peirianwaith mewn ffordd ddiogel. Rhaid iddynt gyflwyno'u hunain pan ofynnir iddynt wneud hynny am asesiad iechyd blynyddol i asesu eu lles a'u haddasrwydd i yrru/defnyddio Fflyd y Cyngor.
- Rhaid bod cyflogeion yn meddu ar drwydded ddilys i yrru neu defnyddio'r cerbyd, y peirianwaith neu'r trelar y maent yn ei ddefnyddio.
- Rhaid i gyflogeion hysbysu eu goruchwylydd /rheolwr llinell o unrhyw euogfarnau gyrru / pwyntiau cosb heb eu disbyddu.
- Rhaid i gyflogeion ufuddhau i reoliadau ffordd/ traffig a gyrru gyda gofal a sylw priodol bob amser.
- Rhaid bod cyflogeion wedi cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gyrrwr Ceredigion (CDAT), hyfforddiant MIDAS (Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrrwr Bws Mini) (pan fo hynny'n berthnasol) a chyfarwyddo gyda'r cerbyd (pan fo hynny'n briodol) ar gyfer y cerbydau, y peirianwaith neu'r trelar y maent yn ei ddefnyddio.
- Rhaid i yrwyr sicrhau eu bod nhw a phob teithiwr o dan 14 oed yn gwisgo gwregysau diogelwch fel sy'n ofynnol gan y gyfraith a pholisi y Cyngor.

- Rhaid i yrwyr atgoffa pob teithiwr 14 oed neu hŷn o'u cyfrifoldeb personol i wisgo gwregysau diogelwch fel sy'n ofynnol gan y gyfraith a pholisi y Cyngor.
- Rhaid i unrhyw gyflogeion sy’n ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad sy’n gysylltiedig â cherbyd / peirianwaith, adrodd hyn i’w rheolwr llinell ar unwaith, os oedd rhywun wedi cael dolur neu beidio, a waeth pa mor fach oedd y difrod i’r cerbyd neu’r peirianwaith. Rhaid i yrwyr ddilyn y weithdrefn adrodd am ddigwyddiad fel yr amlinellir yn y siart llif adrodd am ddigwyddiad.
- Ni ddylai cyflogeion darfu ar neu newid unrhyw offer lliniaru risg (gan gynnwys camerâu dangosfwrdd a thelemateg).
- Rhaid i gyflogeion adrodd i’w rheolwr llinell os ydynt yn cymryd unrhyw feddyginiaeth dan bresgripsiwn (neu dros y cownter) y gallai effeithio ar eu gallu i yrru / defnyddio eu cerbyd / peirianwaith mewn ffordd ddiogel.
- Mae gofyn i gyflogeion gydymffurfio â’r holl ofynion sy’n gysylltiedig â chynnal eu hawl i gael trwydded yrru, ond heb eu cyfyngu i:
    - adnewyddu eu trwydded ar yr adegau gofynnol a nodir ar eu trwydded yn unol â’u hoedran a / neu gyflyrau meddygol; a
    - hysbysu DVLA o unrhyw gyflyrau meddygol adroddadwy newydd neu newidiadau i gyflwr meddygol sy’n bodoli eisoes, y gallai effeithio ar eu gallu i yrru.
- Ni ddylai cyflogeion ysmygu na defnyddio sigaréts electronig mewn cerbydau.
- Rhaid i gyflogeion y mae gofyn iddynt ddal cerdyn CPC Gyrrwr gyflawni’r 37 awr o hyfforddiant CPC gyrrwr pan fo hynny’n berthnasol dros gyfnod o 5 mlynedd. Rhaid i yrwyr gario eu cardiau CPC gyda nhw bob amser pan fyddant yn gyrru cerbydau / peirianwaith lle y mae gofyn meddu ar y CPC gyrrwr.
- Rhaid i’r cyflogai gyflwyno manylion eu trwydded a’u cerbyd CPC bob 6 mis, wrth ofyn am lyfr archwilio diffygion newydd neu lyfr oriau gyrrwr neu yn ôl y gofyn gan eu rheolwr.
- Dim ond at ddibenion gwaith y dylai cyflogeion ddefnyddio’r cerbyd (efallai y caniateir i rai cyflogeion fynd â cherbydau gartref; os felly, ni ddylid defnyddio cerbydau’r Cyngor at ddibenion domestig / personol).

**Profion Cyffuriau ac Alcohol**

- Ni ddylai cyflogeion yrru / defnyddio unrhyw gerbydau neu offer os byddant dan ddylanwad sylweddau anghyfreithlon neu alcohol.
- Er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y cytundeb hwn a’r Polisi Gyrru yn y Gwaith, mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i fynnu bod Cyflogeion yn cael profion alcohol a/neu gyffuriau pan geir amheuaeth eu bod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol.
- Hysbysir cyflogeion nad yw cais i gael prawf alcohol a chyffuriau ynddo’i hun yn dynodi y ceir amheuaeth eu bod wedi camymddwyn.
- Pan gynhelir profion, bydd angen disgwylir i’r unigolyn lofnodi caniatâd ysgrifenedig i gael eu profi. Ystyrir bod methu rhoi caniatâd, neu wrthod rhoi sampl dŵr, gwaed, gwallt neu sampl arall ar ôl cael cais rhesymol i’w roi, yn torri amodau’r cytundeb hwn ac fe allai arwain at gymryd camau disgyblu.
- Bydd profion yn cael eu cynnal o dan gyfarwyddyd gwasanaeth allanol proffesiynol sy’n bodloni safonau proffesiynol, a bydd y gwasanaeth hwn yn dehongli canlyniadau profion. Bydd staff yn gallu troi at gopi dyblyg o unrhyw

sampl a gymrwyd er mwyn eu galluogi i drefnu dadansoddiad annibynnol ohono, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.  Trafodir trefniadau eraill sy’n ymwneud â’r gweithgarwch sgrinio gydag aelodau o staff sy’n cael eu heffeithio ar y pryd.

- Wrth brofi am alcohol, bydd lefel alcohol yn y gwaed o 80mg o alcohol fesul 100ml o waed neu fwy yn arwain at gamau disgyblu fel arfer.
- Wrth brofi am gyffuriau rheoledig, bydd y terfyn trothwy fesul litr o waed yn wahanol ar gyfer pob cyffur, fel y nodir yn ‘*Drug Driving (Specified Limits) (England and Wales) Regulations 2014’*. Fel arfer, bydd canlyniadau sy'n uwch na'r terfyn trothwy yn arwain at gamau disgyblu.

**Cyfrifoldebau cyflogeion mewn perthynas â cherbydau / peirianwaith:**


- Rhaid i yrwyr sicrhau eu bod yn cwblhau eu harchwiliadau dyddiol cyn defnyddio cerbyd, peirianwaith neu drelar am y tro cyntaf bob dydd, gan gofnodi hyn yn eu Harchwiliad Dyddiol Gyrrwr.
- Rhaid i yrwyr adrodd am unrhyw ddiffygion a nodir fel rhan o’u harchwiliad dyddiol, neu unrhyw rai sy’n codi wrth ddefnyddio, i’r Uned Cynnal a Chadw Trafnidiaeth ar unwaith, gan ddilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddir.
- Mae’r cyflogai yn gyfrifol am sicrhau bod y cerbyd / peirianwaith yn cael ei gadw mewn cyflwr glân a defnyddiadwy.
- Mae gofyn i’r cyflogai gyflwyno’r cerbyd / peirianwaith / trelar i’w archwilio ar yr adegau gofynnol.

**PWYSIG**

**Nid yw’r rhestr hon yn cynnwys popeth;  rhaid i bob gyrrwr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r holl ofynion cyfreithiol a chyflogaeth.**

**Fel y nodir ym Mholisi Disgyblu’r Cyngor, gall cyflogeion y canfyddir eu bod wedi achosi difrod yn 'fwriadol, yn dwyllodrus neu'n esgeulus' i eitem o Fflyd y Cyngor, cerbyd trydydd parti neu eiddo a lle bydd y Cyngor 'yn gorfod talu costau i'w hatgyweirio neu eu cyfnewid’ fod yn atebol am y costau hyn yn dilyn gwrandawiad disgyblu. Bydd y gost yn cael ei gapio ar swm o £250, neu gost go iawn y gwaith atgyweirio os yw'n llai.  Fel y nodir hefyd ym Mholisi Disgyblu'r Cyngor, bydd gan weithwyr yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i adennill y costau.**

## Digwyddiad wrth yrru – Siart Llif y Broses Riportio



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth

cerinet.ceredigion.gov.uk
01970 633949
healthandsafety@ceredigion.gov.uk.

Caru·Love Ceredigion